

ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREIA NEWYDD, BANGOR
Rhif 4 Cyfrol 15 Hydref 2018

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

PROFIADAU MARGED ELEN YN YR INDIA

YR HANES AR DUDALEN 14



GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT

5.30: OEDFA'R NOS

Tachwedd 4	Gweinidog
Tachwedd 11	Y Parch. Gareth Edwards
Tachwedd 18	Gweinidog
Tachwedd 25	Yr Athro Gareth Lloyd Jones
Rhagfyr 2	Gweinidog
Rhagfyr 9	Y Parch. Eric Jones
Rhagfyr 16	Gwasanaeth Nadolig y Plant

Rhagfyr 23	Gwasanaeth Nadolig Ieuentid
-------------------	-----------------------------

Rhagfyr 30 (bore'n unig)	Cyfarfod Gweddi Trothwy'r Flwyddyn
---------------------------------	------------------------------------

Ionawr 6	Gweinidog
-----------------	-----------

Ionawr 13	Y Parch. Cledwyn Williams
------------------	---------------------------

Ionawr 20	Gweinidog
------------------	-----------

Ionawr 27	
------------------	--

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Tachwedd 4	Arfon Evans
Tachwedd 11/18	Elin Walker Jones
Tachwedd 25	Cynthia Owen
Rhagfyr 2	Cynthia Owen
Rhagfyr 9/16	Gwilym Roberts
Rhagfyr 23/30	Wyn Griffiths
Ionawr 6/13	Delyth Oswy Shaw
Ionawr 20/27	Menna Baines

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Tachwedd 4/11	Gwilym Roberts
Tachwedd 18/25	Arfon Evans
Rhagfyr 2/9	Wyn Griffiths
Rhagfyr 16/23	Delyth Oswy Shaw
Rhagfyr 30	Menna Baines
Ionawr 6	Menna Baines
Ionawr 13/20	Liz Roberts
Ionawr 27	Gareth E. Jones

RHODDWYR Y BLODAU (Cydllynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

4 Tachwedd	Sara Tudor
11 Tachwedd	Ann Roberts
18 Tachwedd	Morfydd Roberts
25 Tachwedd	Gwen Hughes
2 Rhagfyr	Eirian Howells

9 Rhagfyr	Enid Roberts
16 Rhagfyr	Eleri W. Jones
23 Rhagfyr	NADOLIG
30 Rhagfyr	Margaret Tilsley

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Ahithau'n dymor y diolchgarwch edrychwn ymlaen at weithgareddau'r gaeaf. Ym mis Medi cynhaliwyd oedfa deulu arbennig i roi cychwyn i'r tymor newydd, ac erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn fe fydd y gwasanaethau diolchgarwch hefyd wedi eu cynnal. Diolch i bawb sy'n cyfrannu ym mhob ryw fodd i fywyd yr eglwys, ac apeliar ar bawb a all wneud hynny i fod yn ffyddlon i oedfaon y Sul yn arbennig, ac i gefnogi'r Seiat a'r Gymdeithas hefyd.

Dros yr haf cychwynnodd dau weinidog newydd ar eu gweinidogaeth ym Mangor a dymunwn yn dda iawn iddynt. Y Parch. Casi Jones yng Nghapel Emaus a'r Parch. John Howard gyda'r Methodistiaid Saesneg yn Eglwys Sant Ioan. Yng ngwasanaeth sefydlu Casi pregethodd yr Athro Densil Morgan ar yr hanes yn Efengyl Luc am daith y ddau ddisgybl i Emaus pan fu iddynt gyfarfod â'r Crist atgyfodedig ar y ffordd (Luc 24:13-35). Pwysleisiodd mai dyna a ddichon ddigwydd bob tro y penderfynwn ninnau fynd i'r cwrdd, ac anogodd y gynulleidfa i beidio dibrisio'r profiad o gydaddoli.

Rhannu ei brofiadau fel swyddog cyswllt y Methodistiaid ym Mhalestina a wnaeth y Parch. John Howard yng nghyfarfod cyhoeddus Cytûn yn y

Gadeirlan ar 26 Medi. Amlinellodd sefyllfa wleidyddol enbyd y rhanbarth a'r caledi mawr a ddiodeffir gan y Palestiniaid o achos agweddau caled llywodraeth Israel. Manylodd ar effeithiau brawychus y mur sy'n rhannu'r ddwy gymuned a'r trafferthion di-ri a wynebir gan y trigolion lleol. Rhaid, er enghraifft, i'r Palestiniaid gael trwydded i groesi i'w gwaith drwy'r manau archwilio, ond mae'r ffaith fod 104 math o drwydded ar gael yn peri dryswch a rhwystredigaeth, ac yn golygu bod sawl ymgais i groesi yn cael ei atal. Galwodd John Howard am gymorth i elusennau fel Cymorth Cristnogol sy'n gweithio yn y rhanbarth, ac am bwysau gwleidyddol ac economaidd ar lywodraeth Israel i'w pherswadio i gydnabod y gyfraith ryngwladol a rhoi heibio'i sefydliadau anghyfreithlon ar diroedd y meddiant.

Diau y byddai hynny yn gam tuag at heddwch a chyfiawnder ar y llwyfan ryngwladol, ac wrth nodi ym mis Tachwedd ganmlwyddiant diwedd y Rhyfel Mawr diau y cawn ein hatgoffa eto o fraw a dinistr a gwallgofrwydd rhyfel. Ar 8 Hydref traddodwyd darlith flynyddol y Coleg Gwyn gan y Parch. Elfryn Jones ar un o gaplaniaid y rhyfel hwnnw a laddwyd yn Ffrainc ar 8 Hydref 1918, ychydig wythnosau cyn diwedd y brwydro. Roedd William Evans Jones wedi ymuno â'r fyddin ►

➤ cyn i gongripsiwn ddod i rym yn 1916. Clwyfwyd ef yn y brwydro ac anfonwyd ef adref wedi cwblhau ei wasanaeth milwrol, ond mynnodd orffen ei gwrs yn y Coleg Gwyn ar gyfer ei ordeinio'n weinidog gyda'r Bedyddwyr a dychwelodd i Ffrainc yn gaplan. Lladdwyd ef am iddo fynnu mynd yn gwmni i'r bechgyn wrth iddynt ymosod ar y gelyn. Roedd yn ewythr i Miss Dilys Jones, un o'n blaenoriaid, ac yr oedd y darlithydd yn ddiolchgar iawn am y wybodaeth a dderbyniodd ef ganddi.

Dros y misoedd diwethaf dioddefodd amryw o deuluoedd Berea Newydd brofedigaeth a bu i ni gollu sawl aelod. Bu eraill yn wael gartref ac mewn ysbyty. Anfonwn ein cofion atynt oll, gan atgoffa'n hunain o eiriau'r Salmydd a ddywed fod Duw yn gymorth parod mewn cyfyngder (Salm 46:1), a bod yn rhaid i ni weithiau weithredu'n ymarferol i roi a derbyn y cymorth hwnnw.

Gyda chofion caredig atoch i gyd.

COFIO ALWYN

Y PARCHEDIG WILLIAM HUW PRITCHARD

Ddechrau Awst bu farw'r Parch. Ddr Alwyn Roberts (1933–2018). Dyma deyrnged iddo gan un o'i gyfeillion agosaf.

Ym Mhenygroes, yn Nyffryn Nantlle, y magwyd Alwyn, yn fab y mans. Yr oedd yn fachgen eithriadol o alluog, ac enillodd Ysgoloriaeth y Wladwriaeth yn ifanc iawn. Gwnaeth radd yn y gyfraith yn Aberystwyth, ond penderfynodd newid cyfeiriad a mynd i'r weinidogaeth. Aeth yn fyfyrwr i Fangor yn nechrau pumdegau'r ganrif ddiwethaf a chael gyrfa academaidd ddisglair. Chwaraeodd ran amlwg ym mywyd cymdeithasol y coleg, yn aelod gwerthfawr o amryw gymdeithasau ac yn boblogaidd iawn. Yr oedd yn bêl-droediwr brwd a chafodd y fraint aruchel o fod yn gapten ar dîm y Calvinistic Rockets! Ymddiddorai hefyd yn ochr weinyddol bywyd y myfyrwyr, yn aelod uchel ei barch o Gyngor y Myfyrwyr, y SRC, a'r Pwyllgor Gwaith. Yr oedd ei farn yn

aeddfed a chytbwys yn y gwahanol drafodaethau, a gellid rhagweld y byddai'n gwneud cyfraniad i fywyd y genedl yn nes ymlaen. Yng Nghaergrawnt y gwnaeth ei gwrs diwinyddol, a bu'n fyfyrwr disglair a llwyddiannus yno hefyd. Mwynhâi bregethu yn y gwahanol gapeli, ac yr oedd yn bregethwr effeithiol a'i neges bob amser yn berthnasol ac yn gyfoes.



Ar ddiwedd ei gwrs penodwyd ef yn Brifathro Coleg Diwinyddol Aizwal yn yr India a chafodd ei ordeinio ar gyfer y gwaith gan y Gymdeithasfa yn y Gogledd yn 1960. Cyn mynd i'r India priododd Mair ac yntau, a buont yn briodas eithriadol o hapus. Rhoddodd Alwyn wasanaeth gwych yn ei swydd fel Prifathro. Hefyd yr oedd Mair ac yntau'n weithgar gyda'r gwaith cenhadol. Parhaodd eu diddordeb ym Mwrdd y Genhadaeth ar hyd eu hoes, ac fe wnaethant gadw cysylltiad gyda'r eglwys yn India.

Ar ôl iddo ddod yn ôl i Gymru yn 1967, penodwyd Alwyn yn ddarlithydd yn Abertawe ac yna dychwelodd i wasanaethu'r Brifysgol ym Mangor. Yr oedd yn ddarlithydd ysbrydoledig, a meddyliai ei fyfyrwyr y byd ohono. Gwerthfawrogent ei gyfeillgarwch a'i ddiddordeb personol ym mhob un ohonynt. Soniai yntau amdanynt hwythau bob amser gydag anwyldeb mawr, a llawenychai yn eu llwyddiant.

Ar ôl ei gyfnod fel darlithydd llanwodd lawer o swyddi ym Mangor. Bu'n bennaeth yr Adran Efrydiau Allanol gan arwain yn ddoeth, yn gadarn ac yn oleuedig. Roedd yr un peth yn wir am ei arweiniad fel Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Cymru Bangor. Anrhydeddwyd ef mewn llawer ffordd gan y Brifysgol i ddangos gwerthfawrogiad o'i wasanaeth ymroddgar ac effeithiol.

Ni chyfyngodd ei gyfraniad i fywyd y genedl i'r Brifysgol. Dylanwadodd ar ddatblygiad darlledu; bu'n un o aelodau Cymru ar Fwrdd Llywodraethwyr y BBC. Bu'n aelod o'r Cyngor Sir am flynyddoedd. Rhoddodd wasanaeth diffino i'r Eisteddfod Genedlaethol, a'i arweiniad mewn gwahanol bwyllgorau'n ddoeth a dibynadwy.

Bu'n eithriadol o ffyddlon i'r capel ar hyd ei oes, a gwnâi bopeth a allai i gefnogi gwaith yr eglwys. Yr oedd yn ddyn gwylaidd, hoffus, caredig a chymwynasgar, a rhyw hiwmor tawel yn perthyn iddo. Arddelai'r gwerthoedd Cristnogol yn ei holl fywyd. Yr oedd yn annwyl iawn yng nghylch y teulu, a'i deulu'n golygu popeth iddo yntau. Gofalodd am Mair gydag anwyldeb a chariad anghyffredin.

Yr oedd maint y dorf yn ei angladd yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, ar 13 Awst yn tystio i helaethrwydd ei gyfraniad at fywyd Cymru. Roedd cynrychiolwyr o sawl maes y bu'n weithgar ynddo'n bresennol, gan gynnwys rhai o'r eglwys yn India. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Pentir.

Bydd colled enfawr ar ei ôl mewn llawer cylch. Diolchwn amdano a chydymdeimlwn â'i anwyliaid.

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu at Ganolfan Iechyd a Lles Lôn Abaty ym Mangor.

PLANT, IEUENCTID A THEULUEDD

OWAIN DAVIES

Wel ar ôl seibiant yr haf, mae'r gweithgareddau Plant, Ieuenctid a Theuluoedd wedi ailgychwyn.

CROESO'N ÔL – Ar foreau Sul 16 Medi (Berea) a 30 Medi (Bethania) cafwyd gwasanaethau teuluol 'Croeso'n Ôl'.

Roedd yn gyfle i groesawu'r plant yn ôl ac i ddymuno'n dda iddynt yn y flwyddyn ysgol newydd. Themâu'r gwasanaeth oedd Dysgu, Tyfu, Dyfalbarhau a Datblygu, ac roedd y ddwy oedfa'n fendithiol iawn.

HWYL YN Y GOEDWIG – Nos Fercher 3 Hydref fe aeth Cic Bang Felin i Goedwig Penrhyn am sesiwn Ysgol Goedwig. Cafwyd llawer o hwyl yn adeiladu llochesi, chwarae gemau a chynhesu *marshmallows* ar y tân.

RAS HWYL BANGOR – Ddydd Sadwrn 6 Hydref bu rhai o blant ac ieuenctid Berea Newydd ac ambell un o'u rhieni yn rhedeg Ras 10k Bangor a ras hwyl a hynny er mwyn codi arian tuag at waith plant, ieuenctid a theuluoedd y capel.

Diolch i bawb a gymerodd ran ac am eich cefnogaeth ar y diwrnod yn ogystal â'r cyfraniadau. Gwerthfawrogn yn fawr.

NOSON Y GYMDEITHAS – Nos Iau 18 Hydref roedd noson agoriadol y Gymdeithas o dan ofal rhai o ieuenctid yr ardal. Cawsom noson wych o adloniant cerddorol gan Morgan, Lois, Siwan, Ela, Meilyr, Tomos, Gethin a Ioan. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Gweler adroddiad ar dudalen 13



Noson y Gymdeithas, o'r chwith i'r dde: Lois Medi, Ela Vaughan, Morgan Siôn Owen, Tomos Lynch, Gethin Elis, Ioan Bryn, Siwan Huw Williams a Meilyr Lynch yn y blaen

YMESTYN ALLAN – Rwyf yn parhau i ymweld ag ysgolion lleol, ac yn ychwanegol i'r ymweliadau arferol rwyf wedi cael y cyfle i fynd i Ysgol Hirael ac i Gylch Meithrin y Garnedd i rannu negeseuon Diolchgarwch. Hefyd mynychais weithgaredd Pnawn Hwyl Menter Iaith Bangor yn Popdy i rannu gwybodaeth ynglŷn a gweithgareddau'r capel.



Cic Bang Felin yn cael hwyl yng Nghoedwig Penrhyn

OEDFA DIOLCHGARWCH Y PLANT



Cafwyd oedfa hyfryd yng nghwmni plant yr Ysgol Sul, ein gweinidog ac Owain Davies ar 21 Hydref. Trwy gyfrwng darlenniadau, gweddïau, darnau o fideo, emynau a chân cawsom ein hannog i gyfrif ein bendithion, i ofalu am y blaned ac i gofio am bobl sydd heb ddim mewn rhannau eraill o'r byd. Diolch i bawb a gyfrannodd

'PWY FYDD YMA 'MHEN CAN MLYNEDD'

ENID ROBERTS

Yn ddiweddar gofynnodd perthynas i mi pwy oedd awdur y gerdd boblogaidd hon gafodd ei hanfarwoli gan David Lloyd, y tenor byd-enwog o Drelogan, Sir y Fflint, ac a ganwyd ar lwyfannau ledled Cymru. Cywilydd, nid oeddwn yn gwybod. Wedi deall, nid oedd yntau na llu o'i ffrindiau yn gwybod chwaith! Roeddwn yn teimlo'n well wedyn ond dechreuodd yr ymennydd gosi a rhaid oedd gwneud ymchwil. Holais amryw heb ryw lawer o lwc, ond daeth haul ar fryn trwy gysylltu â chyn-athrawon yn Y Rhyl. Ymchwiliais ymhellach a darganfod yr wybodaeth yr wyf am ei rhannu, ond yn fwy na thebyg â rhai sydd eisoes yn gwybod yr ateb!

Enw awdur y gân yw'r Parchedig Ernest Llwyd Williams, a oedd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr. Fe'i ganwyd yn Y Lan ger Efail-wen, Sir Gaerfyrddin, yn 1906. Mynychodd Ysgol Brynconyn, Llandysilio, gyda'i ffrind pennaf Waldo Williams, mab y prifathro. Aeth i Ysgol Sir Arberth cyn dod yn fyfyrwr i Goleg y Bedyddwyr ym Mangor. Dychwelodd i'r De a chael ei ordeinio'n weinidog yng Nghapel Tabernacl, Maes-teg, cyn symud i Gapel Ebeneser, Rhydaman, yn 1936 lle y treuliodd weddill ei oes. Priododd ag Eluned James o Faenclochog a ganwyd iddynt ferch.

Daeth y gweinidog i'r amlwg drwy ei farddoniaeth a'i ryddiaith. Enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol 1953 yn

Y Rhyl am ei awdl 'Y Ffordd' a'r Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais 1954 am ei bryddest 'Y Bannau'. Yn 1936 cyhoeddodd ef a Waldo lyfr o farddoniaeth, *Cerddi'r Plant*.

Ymhlith ei lyfrau eraill y mae *Rhamant Rhydwylym*, *Hen Ddwyllo* (hanes cymeriadau godre'r Preselau) a *Cofiant Thomas Phillips 1868–1936* sef hanes Prifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Yn 1943 enillodd wobr Llyfrau'r Dryw am ei nofel *Tua'r Cyfnos* ac ef hefyd oedd awdur y ddwy gyfrol *Crwydro Sir Benfro*.

Am flynyddoedd ef oedd golygydd 'Colofn yr Awen' yn *Seren Cymru* a bu'n aelod o dîm Ymryson y Beirdd, Sir Gaerfyrddin.

Bu farw'n ddisymwth fis Ionawr 1960 ac fe'i claddwyd ym mynwent Rhydwylym.

Pwy fydd yma 'mhen canmlynedd,
Pwy fydd yma'n dyblu'r gân,
Pwy fydd yma yn cyfeilïo
Hen alawon Cymru lân.

Pwy fydd yma'n adrodd darnau
Awen bair ein dyddiau ni,
Pwy fydd yma'n cyfansoddi
Yn ôl defod braint a bri.

Pwy fydd yma'n darllen pennod,
Pwy fydd yma'n dwedyd gair,
Pwy fydd yma'n efengylu
Ac yn sôn am Faban Mair.

Pwy fydd yma yn y seddau
Pwy fydd yn y gadair fawr,
Pwy fydd yma'n gorfoleddu
Gyda chenadwri'r awr.

Pwy fydd yma'n torri'r bara,
Pwy fydd yma'n rhannu'r gwin,

Pwy fydd yma'n edifeirio
Ger bron Duw yn plygu glin.

Pwy fydd yma 'mhen canmlynedd,
Byddwn ninnau yn y nef,
Ond bydd ffrindiau newydd Iesu
Yma'n sôn amdano Ef.


NOFEL YSGYTWOL AM UN O WŶR Y DADENI

ELWYN RICHARDS

Adolygiad o SGYTHIA gan Gwynn ap Gwilym

Hanes John Dafis, Rheithor Mallwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg, sydd yn nofel y diweddar Gwynn ap Gwilym, *Sgythia* (Gwasg y Bwthyn, Caernarfon, 2017, £12.95). Mae'n nofel ysgubol o bron bedwar can tudalen wedi ei saernïo'n greffus ac mewn iaith odidog, a hynny ynghyd â'r darlun a rydd o fywyd mewn cyfnod arbennig a'i thoreth o gymeriadau hanesyddol, a'i disgrifiad deallus o grefydd, yw ei chryfder.

Nid gwrthdaro yn gymaint â'r disgrifiadau a geir ynddi o fywyd gwrêg a bonedd, tywydd a thirwedd, ofergoelion ac arferion gwerin, sy'n cynnal diddordeb y darlennydd ac yn peri bod hon yn nofel i oedi ynddi ac ailfflasu ei brawddegau. Mae'n ymdrin â themâu mawr bywyd yn gwbl gartrefol ac yn cyflwyno crefydd a diwylliant yr oes yn



eglur.

Gwelwn John Dafis fel un o wŶr mawr y Dadeni Dysg yn ymdrechu i gynnal a meithrin egwyddorion y Diwygiad Protestannaidd a'i bwyslais ar y Beibl fel Gair Duw, ffydd fel unig sail iachawdwriaeth a'r rheidrydd i addysgu ei blwyfolion, a hynny yn wyneb ofergoeliaeth, ymlyniad at yr hen ffydd Babyddol ac ymdrechion rhai o arweinwyr yr eglwys

i lesteirio syniadau'r Diwygiad. Ymdrinnir yn y stori ag egwyddorion cyfieithu'r ysgrythur, ystyr y Cymun, gwaith offeiriad, ymseisnigo'r uchelwyr a llun o themâu eraill a oedd yn codi'n naturiol o fywyd yr ail ganrif ar bymtheg.

Mae ymchwil a gwybodaeth enfawr yn gefndir i'r nofel ond clywir ynddi hefyd lais un a fu'n rheithor Mallwyd heddiw drwy fywyd ac amgylchiadau Rheithor Mallwyd ddoe. ►

► Yn ogystal â'r fframwaith hanesyddol cadarn a'r cymeriadau adnabyddus fel Edmwnd Prys a John Parry, Esgob Llanelwy, ceir yn y nofel hefyd liaws o gymeriadau eraill sy'n ffrwyth dychymyg yr awdur ac mae'r ddwy ffrwd yn rhedeg yn esmwyth i'w gilydd i greu stori y mae ei diffyg cynnwrf yn gymorth i'w mwynhau. Mae yma hiwmor a difrifwch, colled a gobaith, mawrion bethau'r ffydd a manion

bywyd gwerin, oll yn gymysg â'i gilydd.

Rhaid llongyfarch Gwasg y Bwthyn am gyhoeddi'r nofel, a hynny wedi marw'r awdur. Mae'r clawr yn chwaethus, y rhwymiad yn gadarn a'r print yn eglur. Diolch hefyd i'r Parch. Ifor ap Gwilym am ei gyflwyniad iddi sy'n dwyn i gof gamp a chymeriad Gwynn.

O LYN GARDA I LYN STWLAN GRIFF JONES A'I LUNIAU

WILLIAM OWEN



Gall un o'n haelodau edrych yn ôl ar y flwyddyn a gweldd iddi fod yn un brysurach nag arfer. Nid fod Griff Jones fyth yn segur er fod ganddo esgus i arafu ac yntau'n 96 oed. Nid oes pall ar ei awydd i beintio lluniau ac eleni cafodd sylw mawr am ei fod wedi cynnal ei arddangosfa gyntaf.

Un o'i hoff leoedd yw Oriol Môn ac yno y dangoswyd ei luniau mewn man yr oedd yn

anodd eu methu, ar wal y llwybr wrth ochr Oriol Kyffin Williams. Syr Kyffin a Charles Tunnicliffe yw dau o'i hoff arlunwyr.

“Ar wahân i sioe bach gan grŵp arlunwyr Caernarfon dim ond un waith dwi wedi dangos fy lluniau o'r blaen, mewn capel yn Beddgelert,” meddai.

Mae wedi ymddiddori mewn arlunio a pheintio o ddiffri ers yn agos i hanner can mlynedd, ond ymhell ar ôl dyddiau ysgol

y plannwyd yr hedyn. Dechreuodd fynd i ddosbarth nos Evie Roberts yn Ysgol Brynrefail wedi symud i fyw i gadw siop ym Methel. Yno y cafodd yr awydd i ddechrau peintio gydag olew. Byddai'n mynd allan i dynnu llun mewn pensil neu gyda'i gamera cyn dod yn ôl i'r tŷ i wneud llun olew. Cafodd fwy o amser i wneud hynny ar ôl iddo ymddeol yn 62 oed. Gellir rhestru ei luniau, meddai, dan dri phennawd – dŵr, coed a mynydd. Mae ei gasgliad yng Nghae Ffynnon, Parc Fictoria, lle mae'n cartrefu gyda'i ferch Eleri a'i gŵr Gareth, yn cynnwys amrywiaeth o beintiadau o Lyn Garda i Lyn Stwlan, yr argae a godwyd heb fod ymhell o fan ei eni ym Mlaenau Ffestiniog.

“Wrth gwrs, welwch chi ddim coed o gwmpas Stwlan. Fi sydd wedi ychwanegu'r rheiny. Mi fydda i'n licio rhoi rhyw bethau fy hun yn y lluniau. 'Run fath â'r llun cynta' wnes i efo Evie, bwthyn ym Mhenrhyndeudraeth. Mi fues i'n siarad efo fi'n hun yn meddwl be' i'w roi ar ochr dde'r llun. Doeddwn i ddim yn medru cael y goeden iawn. Yn y diwedd castell Harlech sydd yma, yn y pellter.”

Tri hoff arlunydd sydd ganddo – Constable, Turner a Shishkin o Rwsia. Mae'n medru byseddu llyfr o luniau'r olaf gyda rhyfeddod yn ei lais wrth ei dynnu oddi ar y silffoedd sy'n llawn llyfrau am arlunwyr a'u gwaith. Edmyga ddawn Ivan Shishkin gyda'i luniau amrywiol o goed, yn sgetsis mewn pensil a lluniau olew. O dro i dro mae'n ceisio mynd ati i efelychu ei arddull sy'n llawn manylder o fonion y coed i'w brig.

“Dwi wedi copïo un o'i luniau mewn pastel ond i fi fy hun oedd hynny a neb arall.”

Ar frig y rhestr o'r manau gorau ganddo i sgetsio y mae'r Fachwen, uwchlaw Llyn Padarn, yn edrych i gyfeiriad Yr Wyddfa. Mae o'n lle braf, meddai, heb waith dringo. Wedi dod yn ôl i'r stiwdio yn y tŷ bydd yn rhoi'r cynnig cyntaf ar y peintiad ar ganfas. Mae'n cymryd tri neu bedwar diwrnod, weithiau ragor, i gwblhau llun.

“Mi fydda' i'n licio gwneud yr un llun fwy nag unwaith – rhyw dri neu bedwar ohonyn nhw – a defnyddio gwahanol liwiau ar bob un. 'Run fath â'r tri ar y wal yn y stafell yma,” meddai wrth fynd o gwmpas i ddangos y dewis o luniau sydd ar waliau'r tŷ a'i stiwdio.

Un syndod oedd gweld dau lun gan ei ddiweddar frawd Tom a ymfudodd i Ganada yn 1934. Roedd yntau hefyd wedi dechrau peintio yn ei wlad newydd a'r ddau yn gwybod dim am ddiddordeb ei gilydd.

Nid oes ganddo gynlluniau i gynnal arddangosfa arall ar hyn o bryd. Ond mae wedi canfod oriel luniau newydd sydd at ei ddant, Oriol Ffin y Parc ger Llanrwst.

“Mi fydda i'n mynd draw yno am dro efo Eleri bob rhyw bythefnos. Mae ganddyn nhw luniau gwerth eu gweld, rhai ohonyn nhw ddim at ddant pawb wrth gwrs ond dwi wedi gweld rhai da iawn ganddyn nhw.”

Wedi cael trafod y lluniau gyda'r staff daw awydd pellach i fynd ati efo'r bensil a'r brwsh ac ymroi i weithio'n galed i gwblhau llun.

“Mae'n rhaid ichi weithio os 'dach chi isio dysgu,” eglura gan gydnabod mai'r nod o hyd yw perffeithio'r grefft.

TAITH PATAGONIA 2018

MEILYR JONES

Dros yr haf, cefais i a 3 myfyriwr arall o Brifysgol Met Caerdydd y cyfle arbennig i deithio i'r Wladfa i ymgymryd mewn tair wythnos o brofiad gwaith, drwy helpu mewn ysgolion, clybiau chwaraeon, capeli lleol a nifer o ddsbarthiadau i oedolion, a hyn i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni yw'r flwyddyn gyntaf i astudio cwrs chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol, a dyma'r trip cyntaf ar gyfer y cwrs.

Dechreuodd y trip gyda thaith awyren 13 awr i Buenos Aires. Er ein bod wedi ymladd, cawsom ddiwrnod i ymweld â'r ddinas fawr cyn dechrau'r trip yn iawn ym Mhatagonia. Cyferbyniad llwyr oedd Esquel, y man cyntaf aethom ym Mhatagonia. Wedi cyrraedd Esquel, yng nghanol Yr Andes, aethom yn syth i gymanfa gapel Cymraeg, ac yna aros i sgwrsio gyda'r trigolion lleol, braf iawn oedd clywed emynau cyfarwydd

yn cael ei ganu drwy gyfrwng y gymraeg gyda 'twang' Sbaeneg! Roedd y croeso a gawsom yn anhygoel. Am weddill ein hamser yn Yr Andes mynychon Ysgol y Cwm, ysgol

gynradd Gymraeg, yn ogystal ag amryw o glybiau chwaraeon.

Ar ôl ein hamser byr yn Esquel, aethom ymlaen i'r Gaiman yn Nwyrain Patagonia lle'r oeddem am ran fwyaf y daith. Roedd yn daith bws 11 awr i gyrraedd y Gaiman, anghredadwy ydi meddwl bod y Cymry wedi teithio dros y paith ar gefn ceffylau tua 150 mlynedd yn ôl! Bob dydd tra'n y Gaiman, roeddem yn helpu gyda gwersi addysg gorfforol yn ysgol gynradd y Gaiman yn ogystal â mynychu clybiau chwaraeon gyda'r nosweithiau. Roedd y clybiau yn amrywio o bêl-droed i hoci ac o rygbi i ganŵio ar afon Camwy! Cawsom agoriad llygad wrth ymweld â'r clwb rygbi lleol, sef clwb rygbi'r Ddraig Goch gan fod y chwaraewyr yn chwarae rygbi ar dywod a cherrig man, roedd yn edrych yn boenus iawn. Roeddwn yn falch mae helpu hyfforddi oeddwn i, a ddim cymryd rhan!

Gyda'r nosweithiau byddem yn cael cynigion i fynd i fwyta yn nhai teuluoedd lleol a phobl yn y gymdeithas gan gynnwys un *asado* traddodiadol yn fferm Ivon William, roeddem



Capel Glan Alaw yn Nyffryn Camwy

fyny tan oriau man y bore yn canu caneuon gwerin Cymreig, gyda Billy Hughes ar y gitar, roedd yn hyfryd i ddeud y lleiaf! Yn ogystal â'r 'gwaith' cawsom benwythnos ym Mhorth Madryn lle aethom allan ar gwch i edrych ar y morfilod a chael noson allan yno. Cawsom daith gan un o'r trigolion o dras Cymreig, Ricardo, o gwmpas Dyffryn Camwy un bore, gan weld y ffermydd roedd y Cymry wedi sefydlu. Roedd yn rhyfeddol gweld degau o gapeli bychain ddim mwy na hanner milltir o'i gilydd. Er, dywedodd Ricardo wrthom, dim ond unwaith y mis mae cymanfa Cymreig yn cael ei gynnal y dyddiau yma.

Gorffennwyd y daith gydag Eisteddfod yr Ifanc Gaiman, roedd y 4 ohonom yn rhan o'r côr a oedd yn canu'n Gymraeg, Saesneg a Sbaeneg, ac er bod ein sgiliau Sbaeneg yn warthus, rhywffordd, enillasom y gystadleuaeth. Ar ôl yr Eisteddfod cawsom noson yn nhafarn y Mochyn Du (yr unig dafarn gyda'r enw yna yn y byd erbyn heddiw), i ffarwelio â'r trigolion oedd wedi bod mor hyfryd gyda ni.

Diolch i bawb o aelodau Berea Newydd a helpodd fi i wireddu'r daith bythgofiadwy hon.

Y GYMDEITHAS

Daeth criw da ynghyd i gyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas nos lau, Hydref 18. Noson dan ofal Owain Davies a phobl ifanc y capel oedd hon. Owain, ein gweithiwr ieuencid, oedd wedi trefnu'r noson ac yn ei harwain wedi gair

o groeso gan lywydd y noson, Y Parch. Ddr Elwyn Richards. Cafwyd amrywiaeth o berfformiadau, yn cynnwys cyflwyniad llafar, unawd, ac unawdau ar y piano yn ogystal â chan neu ddwy gan fand o dri i orffen y noson.

Dangosodd y cyfan faint o dalent sydd ymhlith yr ieuencid. Y tair oedd yng ngofal y baned oedd Helen Morris, Gwenno Pritchard ac Elizabeth Evans. *Manylion nosweithiau nesaf y Gymdeithas yn y Dyddiadur (tud. 19).*

Y SEIAT

Bydd y Seiat yn ailgychwyn ar 15 Tachwedd, a byddwn yn rhoi sylw y tymor hwn i Timotheus, un o gymeriadau llai amlwg y

Testament Newydd, gan ddefnyddio *Dehongli Bywyd a Gwaith Timotheus* gan y Parch. Elfed ap Nefydd Roberts a'r ysgrifau sy'n

ymddangos yn *Y Goleuad* gan y Parch. Judith Morris. *Gweler Y Dyddiadur (tud.19) am y dyddiadau.*

GEIFR, CHAPATIS A GENOD SANSERA

MENNA BAINES

Braf oedd gweld festri Berea Newydd yn llawn ar gyfer sgwrs un o'n haelodau ifanc, Marged Elen, am ei thri mis yn gwirfoddoli gyda'r ICS (Gwasanaeth y Dinesydd Rhyngwladol) yn India yn gynharach eleni. Roedd Marged wedi cynnal y noson er mwyn rhannu'r hanes ac er mwyn diolch i'r rhai a gyfrannodd at y fenter.

Gyda chymorth lluniau gwych a cherddoriaeth, daeth Marged â'i phrofiad ym mhentref bach gwledig a thloddaidd Sansera ynghanol anialdir Rajasthan yn llachar o fyw inni. Cawsom glywed am y gwaith y bu hi a'i chyd-wirfoddolwraig o

India ynghlwm ag ef, sef prosiect i gael merched yr ardal i chwarae rhan a chael mwy o lais ym mywyd eu cymdeithas. Dyma waith a oedd yn gyfuniad o rwystredigaeth ar un llaw, wrth frwydro yn erbyn trefn sydd wedi ei hen sefydlu, ac ysbrydoliaeth ar y llaw arall, wrth weld arwyddion bychain ond gobeithiol o newid.

Cawsom hefyd gipolwg hudolus ar fywyd yn Sansera yn gyffredinol – pentref llawn temlau lle mae amaethyddiaeth yn ganolog a lle mae anifeiliaid, gan gynnwys byffalos, yn crwydro'n rhydd! Roedd hi'n amlwg fod Marged wedi cael croeso cynnes yno, wedi gwneud cyfeillion agos ac y bydd y profiad yn aros yn ei chof am byth.

Diolch i Marged am sgwrs mor ddefnyddig a'r danteithion blasus a'r baned a'i dilynodd.



Chwith: Grŵp merched Sansera ac un o'r arweinwyr yn y blaen, sef Shameem.

Ar y clawr blaen gwelir Marged gyda Muskan, aelod o'r teulu yr oedd yn aros efo nhw.

Ar y clawr cefn gwelir criw o ferched ifanc yr ardal ar ddiwrnod i ddathlu cyfraniad merched Sansera gyda'r gymuned gyfan. Mae'r gwaith celf ar lawr yn cyfleu eu hedmygedd a'u gwerthfawrogiad o'r merched yn eu bywydau.

DOSBARTH DERBYN

Mae'r Gweinidog yn awyddus i gynnal dosbarthiadau derbyn ar gyfer y rhai sydd

am ddod yn gyflawn aelodau.
Rhowch eich enwau iddo ef neu Owain

Davies cyn gynted ag y bo modd, os gwelwch yn dda.

ENWAU LLEOL

GLEND A CARR

Mae'n braf cael croesawu arbenigwraig ar enwau lleoedd, un sy'n byw yn ein plith ym Mangor, yn ôl i dudalennau *Ichthus* i drafod rhagor o enwau lleol. Mae'n cychwyn gyda rhai o gwmpas y ddinas ei hun.

O GWMPAS BANGOR

GIRLAS

Rai misoedd yn ôl cefais alwad ffôn gan fy nghyfaill Bruce Griffiths. Byddaf yn hoffi cael galwad gan Bruce, gan y gwn fod yna drafodaeth ddifyr i ddilyn am enw lle neu bwynt ieithyddol. A dyna a ddigwyddodd y tro hwn hefyd. Roedd Bruce yn bwriadu mynd am dro yn ardal Penrhosgarnedd ac wedi bod yn edrych ar y map am y llwybrau. Dywedodd ei fod wedi gweld yr enw *Girlas* ym Mhenrhos ar un o'i fapiau, a gofynnodd a oeddwn i yn gyfarwydd â'r enw. Doeddwn i erioed wedi clywed sôn am y lle. Felly, mi es innau i dyrchu yn fy stôr eithaf sylweddol o fapiau. Ar fap o ardal Eryri o 1903–10 gwelais yr enw *Girlas* wedi ei nodi ar y man lle mae Ysbyty Gwynedd heddiw. Ymddangosai'n enw od iawn i mi, ac ni fedrwn ei esbonio. Edrychais ar sawl map arall, ond doedd dim sôn ohono.

Yna mewn map OS 2½ modfedd o'r flwyddyn 1963 fe welais yr enw eto yn yr un fan ym Mhenrhos, ond y tro hwn roedd wedi ei sillafu'n wahanol, sef *Gilros*. Roedd hyn yn gwneud llawer mwy o synnwyr. Edrychais yn *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon* J. Lloyd-Jones, a dyna le'r oedd 'Y *Gilros*, ym Mhenrhosgarnedd'. Nid oedd unrhyw esboniad iddo yno, ond wedi gweld y ffurf *Gilros* roedd yr ystyr yn ddigon eglur. Yr hyn sydd yma yw *cil*

+ *rhos*. Yr un rhos yw hon â'r *rhos* ym Mhenrhosgarnedd. Cyn adeiladu'r tai, ardal o rostir oedd yma, Roedd *Penrhos* ym mhen y rhostir a'r *Gilros* yng nghil y rhostir, hynny yw mewn cornel neu gwr o'r rhostir. Ymddengys mai enw ar yr ardal o gwmpas safle Ysbyty Gwynedd oedd *Y Gilros* yn hytrach nag enw ar dŷ unigol.

Sut y trodd *Gilros* yn *Girlas*? Dwn i ddim. Ond mae ynom duedd i gyfnwiedd cytseiniaid mewn ambell air, ac yma fe drodd *lr* yn *rl*. Y cwbl y gallaf ei ddweud yw fy mod i, fel un o Gofis Caernarfon, wedi arfer clywed ffurfiau fel *cyrnu* a *pyrnu*!

CARREG HWFA

Tybed faint ohonoch chi sydd yn gwybod ymhle mae *Carreg Hwfa*? Byddai ambell un ohonoch efallai yn dweud, 'Roeddwn i'n meddwl mai ysgrif am enwau o gwmpas Bangor oedd hon i fod, ond mae *Carreghwfa* yn gastell ar y gororau yn Llanymynech.' Byddech yn gywir ar y ddau bwynt. Yr oedd *Carreghofa* neu *Garreghwfa* yn Llanymynech yn gastell o bwys ar un adeg, er nad oes fawr ohono ar ôl bellach. Ac mae'n wir hefyd mai ysgrif am enwau o gwmpas Bangor yw hon, oherwydd mae yna fferm o'r enw *Carreg Hwfa* ar y bryndir rhwng ardal ►

► Glanadda a Minffordd. Mae'r lôn fach sydd yn arwain ati yn cychwyn ger cylchfan Coed Mawr.

Cofnodwyd yr enw yn asesiad y Dreth Dir yn 1770 fel *Carreg Hofa*; yna fel *Carreg hwyfa* yn 1780, a *Carreg cowfa* yn 1781. Mae'r sillafu yng nghofnodion y Dreth Dir yn hynod o fympwyol; yn wir, yn chwethinllyd ar adegau, gan eu bod yn dibynnu'n llwyr ar lythrennedd y cofnodwyr. Enw personol gwrywaidd yw *Hwfa*. O'r cyfuniad *ap Hwfa* y tarddodd y cyfenwau *Povey* a *Povah*, sydd yn weddol gyffredin ar y gororau. Er na chlywir *Hwfa* mwyach fel enw cyntaf mae'n elfen gyffredin mewn enwau lleoedd. Fe'i gwelir yn aml yn y ffurf *Hwa*. Roedd yna gae o'r enw *Cae Hwa* ym mhlwyf Llanbeblig ar un adeg, ac fel *Carreg hwa* hefyd y cofnodwyd yr annedd ym Mangor yn 1798. Ond yn 1797 cafwyd cyfeiriad at enw arall ar y fferm, sef *Carreg hwa alias Tythyn Lykie alias Lykie alias Carreck Whoa*. Mae'n debyg mai ymgais i gyfleu'r enw personol benywaidd *Lleucu* sydd yn y ffurf *Lykie*. Dau gyfeiriad yn unig a welais at y lle fel *Tyddyn Lykie*.

Tybed a enwyd *Carreg Hwfa* Bangor oherwydd fod gan y perchennog cyntaf gysylltiad â'r ardal a'r castell ar y gororau, neu a roddodd rhyw Hwfa lleol ei enw i'r fferm ym Mangor? Fe'i mabwysiadwyd yn ddiweddarach yn enw lôn *Trehwfa* sy'n arwain i Ffordd Coed Mawr yn yr un ardal.

MOELYCI

Mae *Moelyci* yn enw ar ardal o ucheldir ac ar annedd i'r gorllewin o Dregarth. Ceir cyfeiriadau cyson at yr enw *Moelyci* drwy'r blynyddoedd, yn bennaf yng

nghasgliad Penrhyn ym Mhrifysgol Bangor. *Moylycki* yw'r ffurf yn 1588 a *Moelyki* flwyddyn yn ddiweddarach. Yr oedd yr ansicrwydd ynglŷn ag ystyr yr enw i'w weld mor gynnar ag 1595 pan gofnodwyd y ffurf *Moel y Ky*. Cymylwyd yr ystyr ymhellach gan sillafiadau megis *Moelucky* o 1610. Anghyson iawn fu'r sillafiad trwy'r blynyddoedd: *Moylike* (1612) a *Voly ucci* (1717).

O gofnod 1595 ymlaen sillefir yr enw fwyfwy fel *Moel-y-ci*, sydd yn dangos fod pobl wedi mynd i feddwl mai'r enw cyffredin *ci* sydd yn dilyn yr elfen gyntaf *moel*. Fodd bynnag, mae'r acen yn disgyrn ar yr *y*, sef *Moelyci*. Y cyfuniad o'r ddwy *l*, y naill ar ddiwedd *moel* a'r llall ar ddechrau *lyci*, sydd wedi achosi'r broblem. Llyncwyd yr ail *l* gan ein gadael â sain *l* unigol. Heb y cyfuniad hwn byddai'r ystyr yn gliriach. Rhaid inni ailrannu'r enw i gael yr ystyr. Edrychwch arno fel *Moel Lyci*. Yn ffodus, mae gennym enwau eraill sydd yn cynnwys yr un ail elfen ond yn dilyn elfen gyntaf wahanol. Mae annedd yn Llangybi o'r enw *Ynys Leci* ac un arall ym Motwnnog o'r enw *Berth Leci*. A gwelsom eisoes fod gan *Garreg Hwfa* ym Mangor enw arall ar un adeg, sef *Tyddyn Lykie*. Enw merch, sef *Lleucu*, sydd yn enw *Ynys Leci*, *Berth Leci* a *Tyddyn Lykie*. O ailedrych ar enw *Moelyci* a gwrando ar y sain, yna gallwn weld a chlywed *Moel Lleucu* yn glir yno hefyd. Yn anffodus, nid yn unig mae *Lleucu* wedi diflannu o enw *Moelyci* ond aeth pob coffadwriaeth ohoni ar goll hefyd.

CAE MAES LODWIG

Heddiw cyfeiria'r enw *Cae Maes Lodwig* at glwstwr bychan o dai oddi ar Lwybr

y Cwfaint yn agos at yr orsaf reilffordd ym Mangor. Mae tŷ o'r enw *Lodwig Villa* gerllaw. Hawdd fyddai tybio mai'r enw personol gwrywaidd *Lodwig* sydd yn yr enwau hyn, ond mae gwir ystyr yr enw yn wahanol iawn.

Daw'r cyfeiriad cynharaf a welwyd at yr enw o rôl rhent stad y Penrhyn o'r flwyddyn 1515. Ffurf yr enw yno yw *key y Maslloedic*. Nid oes sôn am *Lodwig* yma nac yn y *Cae Maes y Lodug* a gofnodwyd yn 1729–30 ac 1732. Gwelir un o'r enghreifftiau cynharaf o'r ffurf *Lodwig* yn asesiad y Dreth Dir yn 1783 lle nodwyd *Cae Maes Lodwig* ddwywaith. Mae'r cofnod yn Rhestr Pennu'r Degwm yn 1841 yn mynd yn ôl at yr hen ffurf *Caemaslodig*. Ond ar ôl hynny *Lodwig* yw'r ffurf arferol.

Os nad yr enw personol *Lodwig* sydd yma, beth, felly, yw'r elfen *lodig*? Dengys y cyfeiriadau cynharaf nad *lodig* oedd y ffurf wreiddiol ond *llodig*. Ansoddair yw *llodig* a ddefnyddir fel rheol i ddisgrifio hwch mewn gwres yn gofyn baedd. Cyfaddefodd yr Athro Melville Richards ei fod ef yn ansicr ynglŷn â tharddiad enw *Cae Maes Lodwig*, ond yr oedd yntau'n cynnig yr ystyr o faes lle cedwid hwch pan fyddai'n gofyn baedd.

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn rhoi enghreifftiau o ddefnydd yr ansoddair *llodig* yn yr ystyr gyffredinol o anllad neu chwantus. Awgrymwyd mai'r un gair

sydd yn *Ynys Lawd*, sef South Stack ger Caergybi. Yno gallai gyfeirio at natur wyllt a thymhestlog y môr o gwmpas yr ynys.

Sylwer nad oes sôn o gwbl am yr hwch ei hun yn y cyfeiriadau a gadwyd o'r enw *Cae Maes Lodwig*. Byddid wedi disgwyl cael cyfeiriad ati yn un o'r cofnodion cynharach. Clywais awgrymu unwaith nad hwch chwantus oedd yma, ond bod puteiniaid y dref yn arfer ymgasglu yn yr ardal hon o Fangor ar un adeg ac mai eu disgrifio hwy a wnâi'r ansoddair. Ni lwyddais i sicrhau a oedd hyn yn wir neu beidio.

GOETRE UCHAF

Stad gymharol newydd o dai ar gyrion Penrhosgarnedd yw *Goetre Uchaf*. Mae'n amlwg o ble y daeth yr enw, gan fod dwy fferm wedi eu nodi yno ar y map OS, sef *Goetra-uchaf* a *Goetra-isaf*. Ffurf lafar ar yr enw *Goetre* yw *Goetra*, wrth gwrs, ond beth yw ystyr *Goetre*? Pe baech yn edrych yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru fe welech yr enw benywaidd *coetref*, gyda'r ystyr o dyddyn neu drigfan yn y coed. Felly, *coed+tref* yw elfennau'r enw, ond beth yw ystyr *tref* yn y cyswllt hwn? Ystyr wreiddiol *tref* oedd fferm neu annedd unigol, a dyna sydd yn *cartref* ac *adref*. Fe glywir yr ymadrodd 'mynd tua thre' am fynd adref yn Ne Cymru. Datblygiad diweddarach oedd defnyddio *tref* yn yr ystyr o 'town'.

COFIWCH AM DUDALENNAU BERE A'R Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

EMYN A DARLLENIAD

	EMYN	DARLLENIAD
4 Tachwedd	139 Tomos Roberts	Salm 65: 5-8 (Beibl.net) Siôn Roberts
11 Tachwedd (Sul y Cofio)	280 Fflur Williams	Eseia 2: 2-5 (Beibl.net) Meilyr Lynch
18 Tachwedd	372 Elen Gwynn	Salm 98: 4-9 (Beibl.net) Owain Gwynn
25 Tachwedd	147 Niclas Roberts	Salm 121: 1-8 (Beibl Cymraeg Newydd) Iolo Jones Evans
2 Rhagfyr	YMARFER GWASANAETH NADOLIG	
9 Rhagfyr	YMARFER GWASANAETH NADOLIG	
16 Rhagfyr	GWASANAETH NADOLIG	
13 Ionawr	397 Hanna Gwyn Edwards	Salm 92: 1-9 Owain Edwards
20 Ionawr	393 Efa Huw	Salm 23: 1-6 (Beibl Cymraeg Newydd neu WM) Siwan Huw
27 Ionawr	406 Elena Owen	Salm 37: 1-6 Trystan Owen

*Diolch yn fawr am eich cyfraniad
Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,
hysbyser Mari Lois –
dwjmlw@hotmail.com / 07980 287933. Diolch.*



MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

Y DYDDIADUR

TACHWEDD

Iau 8fed, 7.00 Y GYMDEITHAS - Y Seicolegydd Dr. Mair Edwards
Llywydd: Cynthia Owen

Iau 15fed, 7.00 Seiat Berea Newydd.

Iau 29ain, 7.00 Seiat Berea Newydd.

RHAGFYR

Iau 6ed, 7.00 Seiat Berea Newydd.

Iau 13eg, 7.00 Y GYMDEITHAS - Noson Nadoligaidd dan ofal Alwen Darbyshire a'i ffrindiau
Llywydd: Eirian Howells

IONAWR 2019

Iau 10fed, 7.00 Y GYMDEITHAS - John Grisdale o Dîm Achub Mynydd Llanberis
Llywydd: Geraint P. Jones

Iau 17eg, 7.00 Seiat Berea Newydd.

Iau 31ain, 7.00 Seiat Berea Newydd.

CHWEFROR 2019

Iau 10fed, 7.00 Y GYMDEITHAS - Y Prifardd Gwion Hallam: "Awen a Dementia"
Llywydd: Gareth Tilsley

Iau 14eg, 7.00 Seiat Berea Newydd.

CRISTION

Mae'r cylchgrawn ar ei newydd wedd dan olygyddiaeth y Parch. Owain Llŷr Evans, Caerdydd. Mae'n ddiddorol a lliwgar a phob rhifyn yn dilyn thema arbennig.

Cyhoeddir chwe rhifyn bob blwyddyn, a chan ein bod fel eglwys yn archebu 15 neu fwy o gopiâu gellir eu cael am bris gostyngol o £8 y flwyddyn.

Os hoffech dderbyn *Cristion* rhowch eich enw a'ch arian i Dr Gwilym Roberts, os gwelwch yn dda.



Uchod: Y criw o'r capel a redodd ym Mangor, ynghyd â rhai ffrindiau.

Isod: Dathlu cyfraniad merched Sansera, India. Gweler hanes Marged Elen yno ar dudalen 14.

